*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Rhif adroddiad | **FRA/2017/09/10** |
| Dyddiad | **18 Medi 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Sandra Forrest** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon 2016-17** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno datganiad archwiliedig o gyfrifon 2016-17 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, mae'n ofynnol bod y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau:
(i) gymeradwyo datganiad archwiliedig o gyfrifon 2016-17 yn atodiad 1;
(ii) nodi'r adroddiad ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol yn atodiad 2.

**SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Medi 2017 er mwyn adolygu cynnwys yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad cyflwyniadol gynnwys yr argymhelliad y dylai'r canfyddiadau o adroddiad yr archwilwyr gael eu gweithredu'n llwyr a bod y newidiadau gweithdrefnol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.

**GWYBODAETH**

5 Rhoddwyd adroddiad perfformiad ariannol 2016-17 i'r aelodau yng nghyfarfod yr ATA ar 19 Mehefin 2017; roedd yn nodi'r gwariant gwirioneddol yn ystod y flwyddyn o gymharu â'r gyllideb. Roedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn gosod cyllideb fantoledig. Cafodd yr aelodau wybod y byddai £655k o'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio. Fodd bynnag, yn dilyn yr archwiliad mae'r cyfraniad net wedi gostwng o ganlyniad i drosglwyddo arian o'r Gronfa Grantiau i'r Gronfa Gyffredinol, gan leihau'r cyfraniad angenrheidiol i £519k.

**Cronfeydd wrth gefn**

6 Mae cronfeydd defnyddiadwy'n cynnwys y gronfa gyffredinol, cronfeydd a glustnodwyd ac incwm grant a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Gall yr Awdurdod ddefnyddio'r cronfeydd hyn i ariannu gwariant yn y blynyddoedd i ddod. Nid oes modd troi cronfeydd annefnyddiadwy yn arian parod, ac mae'r rheini'n cynnwys arian a neilltuwyd eisoes i ariannu gwariant; ailbrisiadau i adlewyrchu cynnydd mewn gwerth asedau; a'r gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau, sy'n gronfa ddiffyg.

**Newidiadau a Archwiliwyd**

7 Erbyn hyn, mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi cael eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad.

8 Cafodd nifer o gamddatganiadau eu cywiro yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys nifer o newidiadau o ran cyflwyniad a rhifau yn y datganiadau ariannol, nid oedd yr un ohonynt wedi cael effaith ar y gwariant gwirioneddol yn y flwyddyn.

**Argymhellion yr Archwiliad**

9 Bydd argymhellion yr archwilwyr yn cael eu trafod yn y cyfarfod oherwydd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd y rhestr lawn o argymhellion ar gael.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd y gwasanaeth a'r risgiau yn y dyfodol a allai effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau eu darparu. |
| Cyllideb | Mae'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig yn nodi'r incwm a gwariant gwirioneddol o gymharu â'r gyllideb, ac maent yn galluogi'r archwilwyr i roi barn ynghylch a ydynt yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ai peidio. |
| Cyfreithiol | Nodir y fframwaith rheoleiddiol ym mharagraff 2(a) ar dudalen 1 o'r Datganiad o Gyfrifon |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Os na chaiff y cyfrifon eu paratoi yn unol â'r cod ymarfer, mae'n bosibl y bydd y cyfrifon yn rhai amodol. |